I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# LlC24-06

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddydau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Chwefror 2024* |
| *Yn dod i rym* | *7 Chwefror 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(1)(b) a (3), 13(2)(c) a (4)(c), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 7 Chwefror 2024.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "aelod cyswllt" ("*associate member*") yw'r prif gomisiynydd a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol;

ystyr "aelod nad yw'n swyddog" ("*non-officer member*") yw aelod o'r cyd-bwyllgor, nad yw'n gadeirydd iddo, sydd wedi ei benodi yn unol â chyfarwyddyd 4 o'r Cyfarwyddydau hyn;

(**1**) 2006 p. 42.

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf(**1**);

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol ("*host Local Health Board"*) yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg(**2**);

ystyr "cadeirydd" ("*chair*") yw cadeirydd y cyd-bwyllgor;

ystyr "y cyd-bwyllgor" ("*the joint committee*") yw Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru a sefydlir o dan gyfarwyddyd 3(2);

ystyr "cynrychiolydd enwebedig" ("*nominated representative*") yw swyddog-aelod a enwebwyd gan brif swyddogion Bwrdd Iechyd Lleol. Ystyr swyddog-aelod yn y cyd-destun hwn yw unrhyw swydd a nodir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(**3**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau arbenigol" ("*specialised services*") yw gwasanaethau nad yw'n ddichonadwy i Fyrddau Iechyd Lleol eu darparu ar sail unigol ond y gellir eu comisiynu at ddibenion y Cyfarwyddydau hyn mewn cydweithrediad â'r Byrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru;

ystyr "prif swyddogion" ("*chief officers*") yw prif weithredwyr pob Bwrdd Iechyd Lleol;

ystyr "y swyddogaethau perthnasol" ("*the relevant functions*") yw'r swyddogaethau a nodir yng nghyfarwyddyd 3(2);

ystyr "tîm Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru" ("*NHS Wales Joint Commissioning Committee team*") yw staff a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol i arfer y swyddogaethau perthnasol.

### Cyfarwyddydau i bob Bwrdd Iechyd Lleol

**3.**—(1) Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol arfer ar y cyd y swyddogaethau perthnasol o 1 Ebrill 2024.

---

(**1**) Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy. 18)). Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy. 66)) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/349 (Cy. 83).

(**2**) Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy. 66)) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/349 (Cy. 83).

(**3**) O.S. 2009/779 (Cy. 67).

(2) At ddiben y Cyfarwyddydau hyn, y swyddogaethau perthnasol yw cynllunio, sicrhau a chomisiynu—

(a) gwasanaethau arbenigol ar gyfer—

(i) canser ac anhwylderau'r gwaed,

(ii) cyflyrau cardiaidd,

(iii) iechyd meddwl a grwpiau hyglwyf,

(iv) niwrowyddorau, a

(v) menywod a phlant,

(b) gwasanaethau y mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn gytûn y dylid eu trefnu ar sail ranbarthol a chenedlaethol,

(c) gwasanaethau meddygol brys,

(d) gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys,

(e) gwasanaethau casglu a throsglwyddo meddygol brys,

(f) gwasanaethau GIG 111,

(g) canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, a

(h) gwasanaethau eraill fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

(3) At ddiben arfer ar y cyd y swyddogaethau perthnasol o 1 Ebrill 2024 rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol sefydlu cyd-bwyllgor.

(4) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol ddarparu cymorth gweinyddol ar gyfer gweithrediad y cyd-bwyllgor a sefydlu tîm Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru.

**Aelodaeth y cyd-bwyllgor**

**4.**—(1) Mae aelodau'r cyd-bwyllgor yn cynnwys prif weithredwr pob Bwrdd Iechyd Lleol neu ei gynrychiolydd enwebedig ynghyd ag—

(a) cadeirydd, a

(b) dim mwy na phum aelod arall nad yw'n swyddog.

(2) Yn ogystal bydd aelod cyswllt na chaiff bleidleisio mewn unrhyw gyfarfodydd nac unrhyw drafodion o'r cyd-bwyllgor.

**Dirymiadau**

**5.** O 1 Ebrill 2024 mae'r Cyfarwyddydau a ganlyn wedi eu dirymu—

(1) Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009(**1**), a

(**1**) Cyfarwyddyd 2009/35 fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddyd 2014/9 (Cy. 9).

(2) Cyfarwyddydau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014([1]).

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
6 Chwefror 2024

(**1**) Cyfarwyddyd 2014/8 (Cy. 8).